Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019–20

Tachwedd 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41720 ISBN digidol 978-1-80082-501-7

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-20**

**COMISIYNYDD PLANT CYMRU**

**Rhagair gan**

**Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**



**a**

**Julie Morgan AS,**

**Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**



## RHAGAIR

Fel Llywodraethwr, rydym yn croesawu adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, gan gyffwrdd â dechrau pandemig y coronafeirws, ond byddem ar fai pe na byddem yn cydnabod yr effaith enfawr y mae'r pandemig wedi ei chael ar blant a phobl ifanc. Felly, rydym yn croesawu'r adroddiad blynyddol hwn yng nghyd-destun ein hymateb parhaus i'r pandemig.

Rydym am gydnabod gwaith y Comisiynydd yn sefyll dros hawliau plant yn ystod yr argyfwng hwn a'i rôl o ran sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn ddiolchgar iddi hi a'i thîm am arwain arolwg 'Coronafeirws a fi' yn ystod cyfnod cynnar y coronafeirws, er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ledled Cymru ddweud wrthym am eu profiad o'r pandemig, y cyfyngiadau symud a oedd ar waith ar y pryd, a'r effaith ar eu bywydau. Cafodd eu hymatebion eu clywed gan wleidyddion a llunwyr polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Roeddem yn falch iawn bod Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod ein cenedl wedi mynd ar drywydd y diwygio pwysig hwn, er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn yr un modd ag oedolion. Mae'r Comisiynydd Plant wedi bod yn ymgyrchu ers tro dros y ddeddfwriaeth hon, ac rydym am gydnabod ei gwaith sylweddol dros nifer o flynyddoedd i sicrhau bod y Ddeddf hon yn cael ei chynnwys yng nghyfraith Cymru.

Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant, ac yn yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2019/20, gallwn weld ei bod yn arfer dwy o'i swyddogaethau i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei gwaith i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru ac eirioli dros blant a phobl ifanc.

Rydym yn ddiolchgar i'r Comisiynydd am y cyfle hwn i ystyried ein gwaith ac adolygu ein cynnydd o ran y modd rydym yn rhoi ystyriaeth ddyledus i hawliau plant ym mhopeth a wnawn.

Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20, cyflwynodd y Comisiynydd Plant 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac fel Llywodraeth, rydym yn falch o dderbyn y mwyafrif o'r argymhellion.

Er ein bod yn ymfalchïo yn ein hanes o hyrwyddo hawliau plant a gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mae mwy y gallwn ei wneud bob amser i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn deall ei hawliau, sut i'w harfer, a sut i herio'r drefn os nad yw'n cael yr hawliau hynny.

Bu 2020 yn flwyddyn anodd i lawer, ond mae'n rhaid cofio mai'r adeg hon y llynedd roeddem yn dathlu 30 mlynedd ers sefydlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gwnaethom fynychu digwyddiad dathlu gyda'r sector ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant ar 20 Tachwedd er mwyn dathlu 30 mlynedd ers sefydlu'r Confensiwn.

Roedd y dathliad yn cyd-daro ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar hawliau plant. Roedd yr ymgyrch hon yn ymwneud â grymuso plant a phobl ifanc i wybod eu hawliau a sut i'w harfer.

Yn olaf, rydym am adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae hawliau plant yn cael eu parchu, eu diogelu a'u gwireddu, ac er mwyn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn, sy'n parhau i fod yn sail i'n penderfyniadau polisi sy'n effeithio ar blant. Rhan annatod o'n dull gweithredu a'n gwaith yw gwella canlyniadau plant drwy eu helpu a'u cefnogi i wireddu eu potensial yn llawn.

# Cynnwys


**CYFLWYNIAD ......................................................................................................5-6**

**AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN .............................................................7**

1. *Llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ...........................7*
2. *Ymgynghorwyr Personol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.....................................8*
3. *Cyfleoedd i fyw'n lled-annibynnol neu â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal ..........9*
4. *Diwygio 'rhianta corfforaethol'..............................................................................10*
5. *Atal troseddoli plant mewn gofal...........................................................................11*
6. *Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid.............................................................................12*

**AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS ..........................................................13**

7. *Canllawiau statudol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol...............................................13*

**ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL....................14**

8. *Honiadau o gam-drin plant yn erbyn staff addysgu .............................................14*
9. *Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020..........................................................15*
10. *Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol .......................................................16*
11. *Ysgolion Annibynnol...........................................................................................17*

**SAFON BYW SY'N DDIGONOL................................................................................18**

12. *Adolygiad Tlodi Plant..........................................................................................18*
13. *Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesian .....................................................................19*
14. *Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc .......................................................20*
15. *Pontio ym maes iechyd .......................................................................................21*
16. *Gwasanaethau iechyd meddwl i bob oed.............................................................22*
17. *Gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd.........................................................................23*
18. *Adroddiad 'Dim Drws Anghywir' ..........................................................................24*

**Atodiad A– Crynodeb o Ymatebion Llywodraeth Cymru ...................................25-26**

# CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019-20 ar 1 Hydref 2020. Gellir gweld adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2019-20 yma

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o brif gyflawniadau swyddfa'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflawniadau mewn perthynas â blwyddyn gyntaf strategaeth dair blynedd y Comisiynydd (2019 - 2022). (Tudalennau 8 a 9).

Un o themâu allweddol yr adroddiad yw'r Comisiynydd yn rhoi llais i'r di-lais. Er nad yw'r adroddiad blynyddol yn cwmpasu cyfnod pandemig y coronafeirws, mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw at yr effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi ei chael ar blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar ei swyddfa ac ar Lywodraeth Cymru.

Eleni, mae'r Comisiynydd wedi gwneud 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ac ymateb iddynt. Mae'r argymhellion yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth;
- Ymgynghorwyr Personol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal;
- Cyfleoedd i fyw'n lled-annibynnol neu â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal;
- Diwygio rhianta corfforaethol;
- Atal troseddoli plant mewn gofal;
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid;
- Canllawiau statudol ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol;
- Ymchwiliadau i honiadau o gam-drin plant yn erbyn staff addysgu;
- Canllawiau ar Ddisgyblu a Diswyddo ar gyfer cyrff llywodraethu;
- Cod Ymarfer ADY;
- Cofrestru ysgolion annibynnol â Chyngor y Gweithlu Addysg;
- Canfyddiadau'r Adolygiad Tlodi Plant;
- Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant;
- Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc;
- Canllawiau ar bontio ym maes iechyd;
- Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i bob oed;
- Canllawiau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth annibynnol;
- Ymateb i adroddiad 'Dim Drws Anghywir'.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 16 o'r argymhellion, yn derbyn un argymhelliad mewn egwyddor, ac yn gwrthod un argymhelliad.

Ceir crynodeb o'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd a phrif ymateb Llywodraeth Cymru i bob un ohonynt, yn Atodiad A.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi pob un o argymhellion y Comisiynydd, ynghyd â phrif ymateb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys manylion am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

# AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

## 1. Llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Ar ôl adolygu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar frys i sefydlu darpariaeth breswyl newydd amlasiantaeth, wedi'i chomisiynu ac ag adnoddau, yng Nghymru, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Rydym yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a darparu llety, gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn. Neilltuwyd £15m o gyllid y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi prosiectau plant, y mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar anghenion cymhleth iawn.

Rydym yn annog y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ailedrych ar eu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig er mwyn gweld a allant eu haddasu at ddiben yr anghenion cymhleth hyn. Rydym wedi ysgrifennu at y Byrddau yn gofyn am wybodaeth am anghenion yn eu hardaloedd a'u gallu i brynu a pharatoi eiddo. Mae Byrddau ar gamau gwahanol yn hyn o beth, gyda rhai ohonynt yn cydnabod bod anghenion yn bodoli a rhai eraill eisoes wedi rhoi darpariaeth ar waith.

Rydym yn gweithio i nodi'r ffordd orau y gallwn lywio cyllid cyfalaf a refeniw y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi cynnydd. Mae buddsoddi mewn seilwaith i ddarparu llety a gwasanaethau i blant agored i niwed y mae ganddynt anghenion cymhleth iawn yn aml, bob amser wedi bod yn rhan o amcanion rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yng Nghymru. Yn y pen draw, mater i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn seiliedig ar dystiolaeth yn eu Hasesiadau statudol o Anghenion y Boblogaeth, yw penderfynu a ddylid buddsoddi yn y gwasanaethau.

Mae nifer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynd ati i ddatblygu a chyflwyno prosiectau ar gyfer plant agored i niwed yn ystod y cylch cyllido tair blynedd presennol, gan gynnwys Gogledd Cymru a Gwent.

Hefyd, mae Powys wedi datblygu cynigion ar gyfer prosiect llety preswyl sy'n darparu cymorth cofleidiol amlasiantaeth a therapiwtig i blant ag anghenion cymhleth. Mae Gweinidogion yn ddiweddar wedi cymeradwyo mewn egwyddor gyllid cyfalaf i gefnogi'r prosiect hwn. Mae is-ranbarth Sir y Fflint a Wrecsam yng Ngogledd Cymru a Chastell-nedd Port Talbot (yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg) hefyd yn datblygu cynigion i ddarparu gofal a chymorth therapiwtig amlasiantaeth i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

## 2. Ymgynghorwyr Personol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mynediad estynedig at Ymgynghorwyr Personol yn dod yn rhywbeth statudol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd i bawb sy'n gadael gofal barhau i gael mynediad at ymgynghorydd personol, hyd at 25 oed, rydyn ni'n gwybod bod amrywiadau yn sut mae hynny'n cael ei estyn a'i gyflwyno. Byddai gwneud yr hawl yma'n statudol hyd at 25 oed yn diogelu'r gwasanaeth cefnogi hanfodol hwn wrth symud ymlaen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Ers 2017/18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1m ychwanegol i awdurdodau lleol i ymestyn cymorth Ymgynghorwyr Personol i bobl ifanc rhwng 21 a 25 oed sy'n gadael gofal. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau i recriwtio Ymgynghorwyr Personol ychwanegol i ddarparu cymorth estynedig. Mae'r adborth a gafwyd gan awdurdodau lleol am y defnydd o'r arian hwn wedi bod yn gadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon am gysondeb a chyflymder awdurdodau lleol o ran darparu Ymgynghorydd Personol i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

Er mwyn cadarnhau ein hymrwymiad yn y maes hwn a sicrhau mwy o gysondeb, rydym yn cefnogi egwyddor creu gofyniad cyfreithiol sy'n pennu y dylai fod gan bawb sy'n gadael gofal yr hawl i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed.

Rydym wedi ystyried pob opsiwn deddfwriaethol yn drylwyr ac wedi nodi ffordd ymlaen sy'n golygu y gallwn sicrhau'r newid hwn drwy Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Er ein bod yn derbyn yr argymhelliad, yng ngoleuni penderfyniadau ehangach a wnaed ynghylch yr angen brys i flaenoriaethu materion deddfwriaethol yn ymwneud â phandemig y coronafeirws, gwaith pontio'r UE a'r rhaglen ddeddfwriaethol barhaus, eir ar drywydd yr argymhelliad hwn yn Nhymor newydd y Senedd.

## 3. Cyfleoedd i fyw’n lled-annibynnol neu â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut mae modd datblygu cyfleoedd i fyw’n lled-annibynnol neu a chymorth ar gyfer ymadawyr gofal sydd ddim eisiau, neu sy’n methu cael mynediad i leoliadau “Pan Fydda i’n Barod”. Byddai hynny'n sicrhau bod pobl ifanc, pa fath bynnag o leoliad sydd ganddynt, yn gallu cael mynediad at gefnogaeth barhaus y tu hwnt i 18 oed.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae datblygu amrywiaeth o opsiynau llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn un o ymrwymiadau allweddol y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant.

Sefydlwyd cyd-grŵp tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod pobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus o ofal i fywyd annibynnol.

Er bod y cynllun “Pan Fydda i’n Barod" yn gymwys i blant mewn gofal maeth, ni ellir trosi'r un model i ofal preswyl, lle mae'r costau'n sylweddol uwch a lle mae pryderon am briodoldeb oedolion yn byw gyda phlant iau.

Mae'r grŵp opsiynau llety yn ystyried modelau gwahanol, er enghraifft pobl ifanc o ofal preswyl yn cynnal cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol o'u cartref gofal preswyl blaenorol, ac yn cael eu cefnogi ganddynt.

Eir ar drywydd hwn yn ystod yr hyn sy'n weddill o dymor presennol y Senedd.

## 4. Diwygio 'rhianta corfforaethol'

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio “rhianta corfforaethol” fel bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau’r gorau i blant sy’n methu byw gyda’u teuluoedd bellach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae diwygio ac ymestyn rhianta corfforaethol i bob gwasanaeth cyhoeddus yn un o ymrwymiadau allweddol ein rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant.

Cytunwyd ar Bapur Cabinet ym mis Tachwedd 2019, yn nodi ein cynigion ynghylch rhianta corfforaethol. Mae'r papur hwn yn disgrifio ein nod i ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol i bob gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn helpu i sicrhau bod plant sydd â phrofiad o ofal yn cael yr ymateb a'r cymorth gorau gan y gwasanaethau hyn.

Cynhaliwyd gweithdy ar ddiwedd mis Ionawr gyda phlant sydd â phrofiad o ofal a rhanddeiliaid er mwyn cynllunio sut i gyflawni'r gwaith hwn.

Yn anffodus, mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y gallu i gyflawni'r gwaith hwn.

Bwriadwyd cynnal sgwrs genedlaethol 12 wythnos yn y gwanwyn/dechrau'r haf er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat (gan gynnwys y GIG, Addysg, Tai, yr Heddlu, ac ati, ynglŷn â'u cyfrifoldebau ym maes rhianta corfforaethol.

Aethom at i gydgynhyrchu Siarter gwirfoddol er mwyn i'n partneriaid ehangach yn y sector cyhoeddus ymrwymo i ddatganiad cyffredin i wella cymorth a chamau gweithredu wrth weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal.

Rydym yn bwriadu defnyddio ein pwerau deddfwriaethol presennol i atgyfnerthu'r canllawiau statudol ar rianta corfforaethol, egluro rolau a chyfrifoldebau ac ymestyn dyletswyddau ar draws y sector cyhoeddus.

Gan fod pandemig y coronafeirws yn bodoli o hyd, nid yw'n briodol i ni ymgysylltu â'n partneriaid ym maes iechyd, addysg, tai a'r heddlu ynglŷn â chynyddu cyfrifoldebau a chymorth.

Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector, gan gynnwys Voices from Care, i gydgynhyrchu'r siarter gwirfoddol yn barod ar gyfer tymor newydd y Senedd, gan gynnal digwyddiadau ymgysylltu ar-lein gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau yn diwallu eu hanghenion.

## 5. Atal troseddoli plant mewn gofal

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Protocol Cymru Gyfan sy'n ymrwymo i atal troseddoli plant mewn gofal yn ddiangen, i gyd-fynd a gwaith sy'n parhau gan awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill i wreiddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac yn cael ei arwain gan drawma yn eu gwaith.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai plant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol gael eu hystyried yn blant yn y lle cyntaf. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda rhieni i atal plant mewn gofal rhag cael eu troseddoli'n ddiangen. Byddwn yn sefydlu gweithgor gyda rhanddeiliaid allanol er mwyn mynd ati i ddatblygu Protocol Cymru Gyfan i hyrwyddo arferion sy'n atal plant mewn gofal rhag cael eu troseddoli'n ddiangen.

## 6. Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cyfiawnder Ieuenctid wneud cynnydd ar frys yn y Tymor Senedd hwn tuag at yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau bod modd i Gymru ddiwygio sut mae'n cyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn ymateb yn well i anghenion plant agored i niwed yng Nghymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl ar gael ledled Cymru i atal pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a chefnogi'r broses o adsefydlu pobl ifanc sy'n troseddu.

Mae cyflwyno'r Glasbrint yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i gynnwys yng nghynllun Parhad ac Adferiad Llywodraeth Cymru.

# AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS

## 7. Canllawiau statudol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Mae angen i Lywodraeth Cymru ailddechrau gweithio ar y canllawiau statudol Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio a'r penderfyniadau a wneir yn y tymor Senedd hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Cafodd gwaith ar ddrafft terfynol y canllawiau statudol ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol ei oedi o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi'i flaenoriaethu ac mae cyfreithwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y drafft terfynol.

Yn dilyn hyn, gwneir cais ffurfiol i Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU gydgyhoeddi'r canllawiau statudol fel Cyfrol 7 Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

Rydym yn hyderus y caiff y canllawiau statudol eu cyhoeddi yn ystod tymor presennol y Senedd.

# ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

## 8. Honiadau o gam-drin plant yn erbyn staff addysgu

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru roi i CPC y manylion maen nhw wedi'u cael trwy'r gyfres o ohebiaeth a nodwyd uchod ynghylch trefniadau pob awdurdod lleol ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau o gam-drin plant a wnaed yn erbyn staff addysgu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Gwnaethom ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol ym mis Chwefror 2020. Yn anffodus, o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, prin oedd yr ymatebion a ddaeth i law.

Byddwn yn ysgrifennu eto at y rhai na chawsom ymateb ganddynt ac yn rhannu'r wybodaeth a gawn â'r Comisiynydd Plant.

Yn y cyfamser, rhoddir cefndir y mater hwn.

Yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion benodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio i honiadau bod unigolyn a gyflogir gan yr ysgol wedi cam-drin disgybl sydd wedi'i gofrestu yn yr un ysgol.

Mae gan gyrff llywodraethu ryddid i benderfynu pwy i'w benodi'n ymchwilydd annibynnol, yn unol â'r eithriadau yn Rheoliadau 2006 mewn perthynas â phwy na ddylid ei ystyried yn annibynnol.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth a'r hyfforddiant sydd eu hangen ar gyrff llywodraethu i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill* yn cydnabod y ffaith bod gan lawer o awdurdodau lleol eisoes ddarpariaeth ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau, yn aml fel rhan o'r gwasanaethau personèl y gall ysgolion eu prynu i mewn gan yr awdurdod lleol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod ysgolion a cholegau yn gallu cael gafael ar gyfleuster fforddiadwy ar gyfer ymchwiliadau annibynnol.

Un ffordd y gallai awdurdodau gyflawni hyn yw drwy ddatblygu trefniadau cytbwys ag awdurdodau lleol eraill.

Mater i ysgolion ac awdurdodau lleol yw penderfynu gwneud hyn ac nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu nac yn cadw manylion am drefniadau awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymchwiliadau annibynnol fel mater o drefn.

## 9. Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn dilyn gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020 i staff ysgolion: canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu ac os bydd angen, cymryd camau i sicrhau bod y cyrff hynny'n cael gwybod yn glir beth yw'r trefniadau ym mhob ardal awdurdod lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Canllawiau statudol yw *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol*, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 35(8) a 36(8) o Ddeddf Addysg 2002 – sy'n golygu bod yn **rhaid** i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol eu hystyried.

Lle y caiff gofynion gorfodol eu gosod drwy ganllawiau statudol (neu ddarpariaethau statudol eraill) bydd yn nodi bod yn **rhaid** i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gydymffurfio â'r elfen neu'r ddarpariaeth benodol.

Lle y bydd canllawiau'n cyfeirio at arferion da, byddant yn nodi y **dylent** ddilyn y canllawiau penodol oni allant ddangos y gallant gyfiawnhau peidio â gwneud hynny.

Mae gan awdurdodau lleol y pwerau i ymyrryd os bydd corff llywodraethu wedi methu, neu os bydd yn debygol o fethu, â chyflawni dyletswydd o dan y Ddeddf Addysg.

## 10. Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Mae'n rhaid gosod y cod ymarfer ADY a ailddrafftiwyd ac y bu oedi yn ei gylch gerbron y Senedd er mwyn symud ymlaen i weithredu Deddf 2018. Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r buddsoddi ychwanegol yn y sector ADY yn ddigwyddiad untro, ac mae'n rhaid i hyn barhau wrth i'r system newydd ddatblygu er mwyn sicrhau ei llwyddiant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn (derbyn buddsoddiad ychwanegol mewn egwyddor)

Mae diwygio ADY wedi parhau'n flaenoriaeth drwy gydol pandemig y coronafeirws. Nid yw'r amserlenni ar gyfer dechrau cyflwyno'r system ADY newydd wedi newid a bwriedir i'r swyddi statudol (Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, a Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar) ddechrau ym mis Ionawr 2021 o hyd, gyda gweddill y system newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol o fis Medi 2021.

Er mwyn ategu'r rolau statudol newydd, bwriedir gosod rheoliadau ar rôl y Cydlynydd ADY a chyhoeddi canllawiau ar bob un o'r tair rôl statudol hyn o dan y system ADY newydd. Bydd y canllawiau'n cynnwys testun o'r Cod diwygiedig sy'n ymwneud â'r rolau hyn, a byddant yn egluro eu cyfrifoldebau. Caiff y canllawiau a'r rheoliadau eu llywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau ar rôl Cydlynydd ADY. Hefyd, er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Ddeddf ar waith o fis Medi 2021, rhoddir gwybodaeth am y broses o'i rhoi ar waith a'r trefniadau trosiannol.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r system ADY newydd ar waith a'i chyflawni'n llwyddiannus, yn 2018 gwnaethom ymrwymo i fuddsoddi £20 miliwn yn y rhaglen trawsnewid ADY dros weddill tymor y Senedd. Mae cyfran fawr o'r cyllid hwn yn cael ei defnyddio i gefnogi gweithgarwch i feithrin sgiliau'r gweithlu addysg, er mwyn sicrhau y gall ymarferwyr ddefnyddio'r system newydd yn effeithiol a gwella canlyniadau dysgwyr.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'n pump Arweinydd Trawsnewid ADY i ddatblygu pecyn helaeth o hyfforddiant, gweithgarwch meithrin sgiliau craidd a datblygiad proffesiynol parhaus i bob ymarferydd, a'u rhoi ar waith.

Er bod diwygio ADY yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyllido i'r llywodraeth hon, ni allwn ragweld cyllidebau'r dyfodol.

## 11. Ysgolion Annibynnol

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru newid y fframwaith rheoliadol yng nghyswllt ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a'r holl arweinwyr ysgol mewn lleoliadau annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC).

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Rydym wedi bod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoliadol mewn perthynas â'r gweithlu addysg, gan gynnwys rhoi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg orfodi Gorchmynion Atal Dros Dro Interim, a'i gwneud yn ofynnol i staff ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor.

Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chwmpas posibl y newidiadau rheoliadol ac i ba raddau y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol a/neu eilaidd i'w rhoi ar waith. Ar yr un pryd, rydym yn adolygu sefyllfa gweithwyr ieuenctid a'r sector dysgu oedolion yn y gymuned, ac yn ystyried mesurau dros dro amgen, er enghraifft annog staff ysgolion annibynnol i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Byddwn yn diweddaru Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynol (Cymru) 2003 er mwyn sicrhau y cânt eu hatgyfnerthu a'u bod yn adlewyrchu'r canllawiau a'r arferion cyfredol ym maes diogelu. Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynol (Cymru) 2003.

Yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ddiwedd y llynedd, rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig, sef 'Cadw dysgwyr yn ddiogel'.

O dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i berchenogion ysgolion annibynnol gydymffurfio â'n Canllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002,* er mwyn cyrraedd y safonau a bennir yn y rheoliadau ac arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

# SAFON BYW SY’N DDIGONOL

## 12. Adolygiad Tlodi Plant

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau’r Adolygiad Tlodi Plant maen nhw wedi'i gwblhau, a nodi sut bydd y canfyddiadau’n cael eu troi’n gamau pendant sy’n creu gwelliannau amlwg i fywydau plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Gwrthod

Roedd yr Adolygiad Tlodi Plant yn gyfle i ystyried beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod ei rhaglen a’i gwasanaethau sy’n cyfrannu at drechu tlodi yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Roedd disgwyl i ganfyddiadau’r Adolygiad gael eu cyhoeddi yn gynharach eleni.

Fodd bynnag, ers cynnal yr Adolygiad, mae pandemig y coronafeirws wedi arwain at oblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer ein llesiant economaidd a chymdeithasol. O ganlyniad, teimlwyd nad oedd canfyddiadau’r Adolygiad yn adlewyrchu’r dirwedd bresennol a phenderfynwyd peidio â’u cyhoeddi.

Mae angen lliniaru effaith yr argyfwng ar deuluoedd sy’n byw mewn tlodi nawr, a hynny ar frys. Rydym yn canolbwyntio ar gymryd camau ymarferol i gynyddu incwm i’r eithaf, helpu i ostwng costau byw hanfodol a helpu teuluoedd i feithrin cadernid ariannol.

Rydym yn cydweithio â’n rhanddeiliaid i fynd ar drywydd y gwaith hwn dros y misoedd nesaf. Cyhoeddwyd cynllun gweithredu yn amlinellu’r camau y byddwn yn eu cymryd ar 2 Tachwedd 2020.

## 13. Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesian

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant ar waith ar draws ysgolion a chymunedau yng Nghymru yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21 a dylai fod statws statudol i'r fframwaith hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae gwella llesiant disgyblion yn gydymrwymiad allweddol i'r Gweinidogion Addysg ac Iechyd ac yn rhan o'n hymateb i Adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mae ein cynlluniau'n cynnwys adnoddau a gweithgarwch arall i gefnogi'r broses o roi'r Fframwaith ar waith, gan ddefnyddio'r Gyllideb Ysgol Gyfan £5m ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn cynnwys £1.252m i ehangu'r ddarpariaeth cwnsela mewn ysgolion, gan gynnwys cefnogi'r gwasanaeth i symud ar-lein er mwyn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc y mae pandemig y coronafeirws a'r cyfyngiadau symud wedi effeithio arnynt.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n ein bwriad i wneud y Fframwaith yn statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir.

## 14. Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael ei hariannu'n briodol i mewn i 2021-22.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG yn chwarae rôl allweddol wrth wella cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, ac rydym yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer y rhaglen. Cytunwyd ar gyllid tan fis Mawrth 2021, a chaiff penderfyniadau ynghylch cyllido'r rhaglen wedi hynny eu gwneud maes o law.

Mae Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn nodi ein meysydd â blaenoriaeth tan 2022, gan gynnwys gwella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

## 15. Pontio ym maes iechyd

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd ar bontio ym maes iechyd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys cyfarwyddiadau cliriach ar sut y dylai Byrddau Iechyd weithredu hyn, fel nad yw'n dod yn 'waith i bawb a neb'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd yn cael eu cyfathrebu'n glir i fyrddau iechyd fel bod arweiniad ar hyn ym mhob Bwrdd. Dylai'r llywodraeth nesaf adolygu cynnydd Byrddau ar yr agenda hon yn rheolaidd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y canllawiau drafft am gyfnod estynedig rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2020 er mwyn ystyried pamndemig y coronafeirws a rhoi cymaint o amser â phosibl i sefydliadau iechyd ymateb. Cafwyd 80 o ymatebion manwl, a fydd yn helpu i lunio fersiwn derfynol y canllawiau. Rydym wrthi'n gweithio drwy'r ymatebion gyda'r nod o gyhoeddi'r canllawiau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## 16. Gwasanaethau iechyd meddwl i bob oed

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried canfyddiadau'r adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i bob oed, a phenderfynu sut gall y canfyddiadau hyn helpu i ymdrin a'r pontio i wasanaethau oedolion ar draws maes iechyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Trafodwyd yr adolygiad yng nghyfarfod Is-grŵp CAMHS y GIG, a chytunodd y grŵp i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei gynllun gwaith i ystyried y goblygiadau'n fanylach.

Caiff cynnwys a chanlyniadau'r adolygiad hwn hefyd eu cynnwys yng ngwaith pontio ehangach y GIG o dan argymhelliad 15.

## 17. Gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru ddrafftio ac ymgynghori ar ganllawiau sy'n nodi'n glir ddisgwyliad y llywodraeth bod pob Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen hynny. Dylai fod gan y canllawiau statws statudol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i lunio canllawiau mewn perthynas ag eiriolaeth i blant a phobl ifanc ym maes iechyd.

## 18. Adroddiad ‘Dim Drws Anghywir’

**Argymhelliad y Comisiynydd Plant:**

Dylai Llywodraeth Cymru a’r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru ystyried ac ymateb i argymhellion adroddiad ‘Dim Drws Anghywir’ y Comisiynydd. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd a chefnogaeth i FPRhau ddatblygu strategaeth a fydd yn gweithio’n well gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon ymateb ystyriol at y Comisiynydd Plant. Byddwn yn parhau i gefnogi’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi argymhellion adroddiad ‘Dim Drws Anghywir’ ar waith, ac i gyflawni eu gwaith gyda phobl ifanc ac ar eu rhan.

## Atodiad A– Crynodeb o Ymatebion Llywodraeth Cymru

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| 1 | Ar ol adolygu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar frys i sefydlu darpariaeth breswyl newydd amlasiantaeth, wedi'i chomisiynu ac ag adnoddau, yng Nghymru, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. | Derbyn |
| 2 | Mae rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mynediad estynedig at Ymgynghorwyr Personol yn dod yn rhywbeth statudol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd i bawb sy'n gadael gofal barhau i gael mynediad at ymgynghorydd personol, hyd at 25 oed, rydyn ni'n gwybod bod amrywiadau yn y ffordd y mae hynny'n cael ei estyn a'i gyflwyno. Byddai gwneud yr hawl yma'n statudol hyd at 25 oed yn diogelu'r gwasanaeth cefnogi hanfodol hwn wrth symud ymlaen. | Derbyn |
| 3 | Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut mae modd datblygu cyfleoedd i fyw'n lled-annibynnol neu a chymorth ar gyfer ymadawyr gofal sydd ddim eisiau, neu sy'n methu cael mynediad i leoliadau "Pan Fydda i'n Barod". Byddai hynny'n sicrhau bod pobl ifanc, pa fath bynnag o leoliad sydd ganddynt, yn gallu cael mynediad at gefnogaeth barhaus y tu hwnt i 18 oed. | Derbyn |
| 4 | Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio "rhianta corfforaethol" fel bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau'r gorau i blant sy'n methu byw gyda'u teuluoedd bellach. | Derbyn |
| 5 | Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Protocol Cymru Gyfan sy'n ymrwymo i atal troseddoli plant mewn gofal yn ddiangen, i gyd-fynd a gwaith sy'n parhau gan awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill i wreiddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac yn cael ei arwain gan drawma yn eu gwaith. | Derbyn |
| 6 | Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cyfiawnder Ieuenctid wneud cynnydd ar frys yn y Tymor Senedd hwn tuag at yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau bod modd i Gymru ddiwygio sut mae'n cyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn ymateb yn well i anghenion plant agored i niwed yng Nghymru. | Derbyn |
| 7 | Mae angen i Lywodraeth Cymru ailddechrau gweithio ar y canllawiau statudol Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) cyn gynted a phosib er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio a'r penderfyniadau a wneir yn y tymor Senedd hwn. | Derbyn |
| 8 | Dylai Llywodraeth Cymru roi i CPC y manylion maen nhw wedi'u cael trwy'r gyfres o ohebiaeth a nodwyd uchod ynghylch trefniadau pob awdurdod lleol ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau o gam-drin plant a wnaed yn erbyn staff addysgu. | Derbyn |
| 9 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn dilyn gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020 i staff ysgolion: canllawiau diwygiedig ar gyfer | Derbyn |

| | | |
|---|---|---|
| | cyrff llywodraethu ac os bydd angen, cymryd camau i sicrhau bod y cyrff hynny'n cael gwybod yn glir beth yw'r trefniadau ym mhob ardal awdurdod lleol. | |
| **10** | Mae'n rhaid gosod y cod ymarfer ADY a ailddrafftiwyd ac y bu oedi yn ei gylch gerbron y Senedd er mwyn symud ymlaen i weithredu Deddf 2018. Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r buddsoddi ychwanegol yn y sector ADY yn ddigwyddiad untro, ac mae'n rhaid i hyn barhau wrth i'r system newydd ddatblygu er mwyn sicrhau ei llwyddiant. | Derbyn (Derbyn cyllid mewn egwyddor) |
| **11** | Dylai Llywodraeth Cymru newid y fframwaith rheoliadol yng nghyswllt ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a'r holl arweinwyr ysgol mewn lleoliadau annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC). | Derbyn |
| **12** | Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r Adolygiad Tlodi Plant maen nhw wedi'i gwblhau, a nodi sut bydd y canfyddiadau'n cael eu troi'n gamau pendant sy'n creu gwelliannau amlwg i fywydau plant. | Gwrthod |
| **13** | Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin a llesiant ar waith ar draws ysgolion a chymunedau yng Nghymru yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21 a dylai fod statws statudol i'r fframwaith hwn. | Derbyn |
| **14** | Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael ei hariannu'n briodol i mewn i 2021-22. | Derbyn mewn egwyddor |
| **15** | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd ar bontio ym maes iechyd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys cyfarwyddiadau cliriach ar sut y dylai Byrddau Iechyd weithredu hyn, fel nad yw'n dod yn 'waith i bawb a neb'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd yn cael eu cyfathrebu'n glir i fyrddau iechyd fel bod arweiniad ar hyn ym mhob Bwrdd. Dylai'r llywodraeth nesaf adolygu cynnydd Byrddau ar yr agenda hon yn rheolaidd. | Derbyn |
| **16** | Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried canfyddiadau'r adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i bob oed, a phenderfynu sut gall y canfyddiadau hyn helpu i ymdrin a'r pontio i wasanaethau oedolion ar draws maes iechyd. | Derbyn |
| **17** | Dylai Llywodraeth Cymru ddrafftio ac ymgynghori ar ganllawiau sy'n nodi'n glir ddisgwyliad y llywodraeth bod pob Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen hynny. Dylai fod gan y canllawiau statws statudol. | Derbyn |
| **18** | Dylai Llywodraeth Cymru a'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru ystyried ac ymateb i argymhellion adroddiad 'Dim Drws Anghywir' y Comisiynydd. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd a chefnogaeth i FPRhau ddatblygu strategaeth a fydd yn gweithio'n well gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer. | Derbyn |